Lesley Griffiths AC
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

28 Chwefror 2019

Annwyl Lesley

**Llywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Chwefror mewn perthynas â Bil drafft yr Amgylchedd (Egwyddorion a Llywodraethu) Llywodraeth y DU a chynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer llywodraethu amgylcheddol yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (UE).

Trafododd y Pwyllgor eich llythyr yn ei gyfarfod ar 21 Chwefror a chytuno y dylwn ysgrifennu atoch i ynghylch nifer o faterion.

Yn gyntaf, fe'n siomwyd gan yr oedi a gafwyd o ran yr ymateb i gais y Pwyllgor am wybodaeth a'r ffaith bod yr ymateb a gafwyd wedi methu ag ateb nifer o gwestiynau'r Pwyllgor. Dyma'r ail dro yr ydym wedi teimlo bod rhaid ysgrifennu drachefn yn gofyn i chi ymdrin yn llawn â'r materion a godwyd mewn gohebiaeth flaenorol. Rydym yn cydnabod yn llawn y pwysau gwaith sydd ar eich adran oherwydd Brexit. Gellid osgoi llythyrau dilynol a'r gwaith a grëir ganddynt pe bai'r ymateb cyntaf yn un cynhwysfawr.

Hoffem i chi ateb nifer o’r cwestiynau yn ein llythyr cyntaf na chafwyd ateb iddynt, ac ymhelaethu ar eich ymateb i rai eraill.

**Dadansoddiad o'r bwlch llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru**

Wrth ymateb i'n hadroddiad, *Trefniadau llywodraethu amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol ar ôl Brexit*, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018, dywedasoch eich bod yn cynnal dadansoddiad o'r bylchau llywodraethu amgylcheddol fel mae a wnelont â Chymru.

**1. A allwch chi egluro a yw'r gwaith dadansoddi hwn wedi cael ei gwblhau? Os felly, pryd bydd y canfyddiadau ar gael?**

**Cynlluniau wrth gefn ar gyfer Brexit heb gytundeb**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCCERA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCCERA
0300 200 6565

Yn ein llythyr dyddiedig 10 Ionawr, gofynnwyd i chi egluro pa drefniadau llywodraethu amgylcheddol a fyddai ar waith pe bai Brexit heb gytundeb. Dywedasoch wrthym "bydd ein cyrff atebolrwydd, fel yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, yn parhau i glywed cwynion y bobl a bydd ein Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn parhau i warchod egwyddorion datblygu cynaliadwy."

Fel y nodwyd gennych eisoes, cafodd cyrff fel y rhain eu sefydlu â rôl, diben a strwythur cyfansoddiadol penodol. Nid oes gan y cyrff y cyfeiriwch atynt:

- bwerau i ymchwilio i gwynion ynghylch cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol;
- pwerau gorfodi lle y cadarnheir cwynion ynghylch cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol; na
- rôl o ran monitro, mesur ac adrodd ar berfformiad Llywodraeth Cymru mewn perthynas â pholisi amgylcheddol a'i gyflawni yng Nghymru.

O gofio hyn, ac o ystyried swyddogaethau cyfredol y cyrff y cyfeiriwch ato, rydym yn cwestiynu a fyddai'n briodol neu'n rhesymol dibynnu arnynt i lenwi bylchau llywodraethu amgylcheddol, hyd yn oed ar sail interim.

**2. Hoffem i chi esbonio'n fanylach sut yr ydych yn rhagweld y cyrff sy'n bodoli eisoes yn cynnal llywodraethu amgylcheddol effeithiol, pe bai Brexit heb gytundeb.**

**3. Sut mae swyddogaethau'r cyrff hyn yn cyd-fynd â'r swyddogaethau llywodraethu amgylcheddol a arferir ar lefel yr UE ar hyn o bryd?**

**4. Pa drafodaethau a gawsoch â chyrff sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, am eu rôl o ran cynnal llywodraethu amgylcheddol effeithiol pe bai Brexit heb gytundeb? Yn benodol, a oes ganddynt y capasiti, yr arbenigedd a'r adnoddau i ymgymryd ag unrhyw waith ychwanegol sy'n gysylltiedig â hyn.**

### Corff llywodraethu amgylcheddol newydd

Siom i ni yw nodi'r oedi sylweddol yn yr ymgynghoriad ar lywodraethu ac egwyddorion amgylcheddol. Rydym yn cymryd y bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn llywio'ch penderfyniadau ar ystod o faterion pwysig, gan gynnwys corff llywodraethu newydd.

Rydych wedi egluro nad fyddai Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd ('OEP'), a arfaethir gan Lywodraeth y DU ar gyfer Lloegr, yn ymarferol i Gymru, nac yn gydnaws â'r setliad datganoli na deddfwriaeth bresennol Cymru. Serch hynny, dywedasoch wrthym eich bod yn "barod i gydweithio ar lefel y DU i ddelio â'r mater pwysig hwn", a'ch bod yn "parhau i gadw mewn cysylltiad â Llywodraeth y DU".

**5. Pa newidiadau y bydd angen eu gwneud i'r darpariaethau mewn perthynas â'r OEP er mwyn iddi fod yn ymarferol i Gymru, a pha drafodaethau a gawsoch chi â Llywodraeth y DU yn hyn o beth?**

**6. A allwch chi egluro a fyddai digon o amser, yn dilyn canlyniad yr ymgynghoriad sydd ar ddod, i gyd-ddylunio â Llywodraeth y DU unrhyw gynigion deddfwriaethol perthnasol, gan gynnwys rhai ar gyfer yr OEP?**

**7. Pa gyfle fydd gan y Cynulliad i graffu ar unrhyw gynigion deddfwriaethol o'r fath?**

**Bil i Gymru yn y dyfodol**

Yn ein hadroddiad, *Trefniadau llywodraethu amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol ar ôl Brexit*, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018, gwnaethom bwysleisio'r angen am fwy o eglurder ynghylch sut a phryd y byddai Llywodraeth Cymru yn deddfu i fynd i'r afael ag unrhyw fwlch llywodraethu a godai yn sgil Brexit. A hithau bron i naw mis ers hynny, siom yw nodi na chafwyd yr eglurder hwnnw.

Byddai'r cyfnod gweithredu yn rhoi peth amser i Lywodraeth Cymru ddatblygu trefniadau llywodraethu amgylcheddol amgen, ond cyfyng fyddai'r amser ar gyfer pasio deddfwriaeth a'i rhoi ar waith cyn i’r cyfnod hwnnw ddod i ben ym mis Rhagfyr 2020. At hynny, rydym yn ymwybodol eich bod eisoes wedi ymrwymo i gyflwyno dau Fil arall sy'n gysylltiedig â Brexit, gyda'r bwriad y byddant yn pasio cyn diwedd y Pumed Cynulliad.

**8. A allwch chi egluro a fyddai digon o hyblygrwydd yn y rhaglen ddeddfwriaethol i Fil gael ei gyflwyno i Gymru ar egwyddorion amgylcheddol a llywodraethu amgylcheddol yn y Cynulliad hwn?**

O ystyried bod y dyddiad ar gyfer ymadael ar fin cyrraedd, byddwn yn ddiolchgar pe byddech chi'n ymateb fel mater o frys, ac erbyn 14 Mawrth fan bellaf.

Yn gywir,

**Mike Hedges AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**